

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

13 Chwefror 2020

Newport City Homes, Mission Court, Nexus House, Casnewydd, NP20 2DW

Nodyn o'r cyfarfod

<p>CSCC</p> <p>John Lloyd Jones, Cadeirydd Tom Crick, Comisiynydd Richard Feasey, Comisiynydd Stephen Gifford, Comisiynydd (bore yn unig) Eluned Parrott, Comisiynydd Rod Smith, Comisiynydd Chris Sutton, Comisiynydd Emma Thomas, Comisiynydd Tom Wharf, Comisiynydd Ceri Doyle, Comisiynydd</p> <p>Adrian Davies, Swyddfa CSCC Leri George, Swyddfa CSCC Nicola Britton, Swyddfa CSCC</p>	<p>Sesiwn ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan Yr Is- adran Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dewi Rowlands, • Alison Thomas, • Gareth Evans. <p>Ymddiheuriadau</p> <p>Helen Howells, Comisiynydd Rob Irvine, Comisiynydd</p>
---	--

Croeso

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyflwynodd y tîm o is-adran Cynllunio Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru eu cynllun ar gyfer cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Croesawodd CSCC y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y strategaeth, ond pwysleisiwyd yr angen i'r Comisiwn gadw eu hannibyniaeth er mwyn cyflawni eu rôl fel cynghorwyr i Weinidogion.

Camau i'w cymryd

Rhoi dadansoddiad llawn o'r gyllideb i'r CSSC: Gareth Evans

Cynnydd ar Flaenoriaethau NICW

Trafododd comisiynwyr datblygiadau yn y gwaith ar ynni a thrafnidiaeth.

Cyflwynodd Richard Feasey ei bapur ar gyfathrebiadau symudol i'w drafod. Mynegodd y comisiynwyr eu diolch i Richard am ddrafftio'r papur ac fe gytunwyd y dylid symud ymlaen i ddatblygu opsiynau ar gyfer cyfathrebiadau symudol.

Camau i'w cymryd

*Trefnu ymweliad yng. ynni cymunedol: Ceri Doyle
Paratoi papur ar ynni ar gyfer y cyfarfod nesaf: Is-grŵp Ynni*

Creu Lleoedd

Rhannodd Ceri Doyle ychydig o gefndir ar bartneriaeth sydd wrthi'n ffurfio siatr Creu Lleoedd i Gymru.

Camau i'w cymryd

Drafft o'r siatr i'w rhannu er mwyn cywain barn: Ceri Doyle

Comisiwn Seilwaith yr Alban: Adroddiad ar Ganfyddiadau Allweddol

Trafododd y comisiynwyr yr adroddiad ar ganfyddiadau allweddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Camau i'w cymryd

Cysylltu â Chomisiwn Seilwaith yr Alban i drafod datblygiadau: Adrian Davies

UFA

Diweddariad gan Leri George ar *Young Professionals Panel* y NIC. Cynhelir digwyddiad ar y cyd gyda'r CSCC yng Nghaerdydd ar Fawrth 26.

Cyfarfod nesaf: 10 Mawrth. Lleoliad i'w cadarnhau.

Nicola Britton
Chwefror 2020